

**Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar
Rheoliadau Drafft Cronfa ddata Deddf Plant 2004 (Cymru) 2020**

a

**Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion
Annibynnol (Cymru) 2020**

‘Gwahoddiad i Weithdai ‘Trafodaeth Bwrdd’

Addysg yng Nghymru: Mae ein datganiad o fwriad cenedlaethol yn amlinellu'r gweithgaredd sydd ei angen i wireddu ein huchelgais i sicrhau fod gan blant a phobl ifanc yng Nghymru'r sgiliau cywir ar gyfer byd newidiol. Er bod y cynllun gweithredu yn datgan sut y bydd y system addysg yng Nghymru yn symud ymlaen dros y pedair blynedd nesaf, dylai'r egwyddorion sydd ynghlwm â darparu'r gefnogaeth angenrheidiol ar gyfer plant yn yr ysgol – a hawliau pob plentyn i dderbyn addysg fod yr un mor berthnasol yng nghyswllt y rhai a addysgir yn y cartref.

I gynorthwyo awdurdodau lleol i ymgymryd â'u dyletswydd i sicrhau fod plant yn derbyn addysg addas, rydym wedi datblygu rheoliadau drafft i'w cynorthwyo i adnabod plant oedran addysg orfodol yn eu hardaloedd er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn addysg addas.

Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar reoliadau drafft i gefnogi awdurdodau lleol i adnabod plant nad ydynt ar unrhyw gofrestr ysgol, nad ydynt mewn addysg heblaw ysgol, nad ydynt ar gofrestr ysgol annibynnol, a phlant nad ydynt yn derbyn addysg addas. Cliciwch [yma](#) am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, comisiynwyd Cazbah a Markit gan Lywodraeth Cymru i gynnal gweithdai 'Trafodaeth Bwrdd' ar draws Cymru i gasglu adborth. Bydd y trafodaethau yn canolbwyntio yn bennaf ar agweddau technegol o'r rheoliadau drafft.

Er mwyn derbyn eich adborth ar y rheoliadau drafft hoffai Llywodraeth Cymru eich gwahodd fel rhanddeiliad i weithdy 'Trafodaeth Bwrdd'. Cynhelir sesiynau 'Trafodaeth Bwrdd' i bobl ifanc ar yr un pryd â'r rhai ar gyfer oedolion (rhanddeiliaid a rhieni) mewn ystafell gyfagos yn y digwyddiadau yng Ngogledd a Chanolbarth/Gorllewin Cymru fydd yn darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth ganolbwyntiedig. Fodd bynnag ni chynhelir sesiwn ar gyfer pobl ifanc yn ystod y digwyddiad yn Ne Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol - fodd bynnag, mae eich barn a'ch profiad yn bwysig wrth gynorthwyo i hysbysu polisi Llywodraeth Cymru. Mae'r holl adborth yn ddienw ac fe ddinistrir unrhyw gofnod a ddefnyddiwyd i goladu ymatebion unwaith y bydd yr adroddiad terfynol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Oherwydd natur y trafodaethau rydym yn cynghori mai ond pobl ifanc dros 11 mlwydd a diddordeb mewn manylion technegol y rheoliadau ddylai ymuno yn y trafodaethau ar gyfer pobl ifanc. Felly, ni ddarperir adnoddau crèche/chwarae ar gyfer rhieni sy'n mynychu gyda phlant nad ydynt yn cymryd rhan yn y sesiwn 'Trafodaeth Bwrdd'

Mae'r 'Trafodaethau Bwrdd' ar gyfer pobl ifanc yn wirfoddol ac yn ddibynol ar ganiatâd rhieni. Dim ond wedi iddynt gael eu cofrestru gan eu rhiant/gofalwr y caniateir i bobl ifanc ymuno â'r sesiwn. Gall y bobl ifanc ddychwelyd at eu rhiant ar unrhyw adeg.

Bydd lluniaeth ar gael. Gan na ddarperir cinio mae croeso i chi ddod â'ch byr brydau eich hunan.

Mae llefydd yn brin ac fe'u dyrannir ar sail ' y cyntaf i'r felin' Os ydych yn dymuno mynychu Gweithdy 'Trafodaethau Bwrdd' cliciwch ar '[Cofrestrwch yn awr](#)'.

| Rhanbarth | Cynulleidfa | Lleoliad | Dyddiad | Amser |
|-------------------------------------|-----------------------------|---------------------------------------|----------------------------------|--------------------|
| Gogledd Cymru | Rhanddeiliaid a Phobl Ifanc | Venue Cymru, Llandudno | Dydd Gwener 6 Mawrth 2020 | 10.00 - 13.00pm |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Rhanddeiliaid a Phobl Ifanc | Stadiwm Liberty Abertawe | Dydd Gwener 13 Mawrth 2020 | 10.00 - 13.00pm |
| De Cymru | Rhanddeiliaid yn unig | Canolfan Busnes Orbit, Merthyr Tydfil | Dydd Iau 26 Mawrth 2020 | 10.00 - 13.00pm |

Unwaith y byddwch wedi cofrestru byddwch yn derbyn ebost yn cadarnhau pa unai yr ydych wedi llwyddo i sicrhau lle yn y gweithdy o'ch dewis.

Sylwer os gwelwch yn dda y defnyddir y wybodaeth a roddwch yn unol â pholisi preifatrwydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag Addysg yn y Cartref. Gellir gweld y manylion hyn [yma](#)